

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Mae'n debyg y bydd y mwyafrif ohonoch erbyn hyn yn ymwybodol o benderfyniad mwyafrif diweddar y Llywodraeth na fydd ysgolion Cymru yn ail agor hyd at Ionawr y 18fed. Gall hyn newid eto, ac mae posibilrwydd y bydd y dyddiad yma yn newid os na fydd y sefyllfa o ran covid-19 yn gwella ddigon. Bydd trefniadau dysgu ar lein/dysgu cyfunol yn parhau felly i'r disgyblion. Hoffwn i chi annog eich plentyn i roi cynnig ar weithgareddau a mynychu sesiynau gyda'r athro/awes. Gallwch e-bostio yr athro dosbarth os yn ansicr o unrhyw beth ynglŷn â'r gwaith. Byddwn yn parhau i gynnig cyfle i chi gasglu pecyn gwaith papur os dymunwch. Bydd yr amserlen yn debyg i'r un a gynigiwyd yr wythnos yma. **Unwaith eto, bydd angen i chi gysylltu drwy e.bost gyda'r athro/awes dosbarth os ydych yn dymuno derbyn pecyn, fel y gall yr athro/awes baratoi y pecyn yn barod i'ch plentyn. Ar gyfer wythnos nesaf, dylech hysbysu'r athro/awes cyn 10 o'r gloch, bore Llun yr 11eg o Ionawr fan bellaf.** Gweler amserlen casglu pecynnau ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 11eg o Ionawr.

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	12.1.21	1.00-1.30
Mrs M. Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	12.1.21	1.40-2.10
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	12.1.21	2.20 - 2.50
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	13.1.21	9.30-10.00
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	13.1.21	10.10-10.40
Miss B Morris Bl.3&4 / Yr.3&4	13.1.21	10.50-11.20
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	13.1.21	11.30-12.00
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	13.1.21	12.30-1.00
Miss E. Richards Bl.1&2 / Yr.1&2	13.1.21	1.10-1.40
Miss L.Lewis Reception/Derbyn	13.1.21	1.50-2.20
Miss A.Morris Nursery / Reception	13.1.21	2.30-.3.00

Rydym yn y broses o geisio cynllunio darpariaeth ar gyfer plant rhieni/gofalwyr a ddifinir fel 'Gweithwyr Allweddol' yn unig, ar gyfer disgyblion oed meithrin hyd at flwyddyn 6, ble nad yw'n bosib gweithio o adref, yn ystod y cyfnod ble bydd yr ysgol ar gau dros yr wythnosau nesaf. Rydym wedi cynnwys y bythefnos nesaf gan ein bod yn ansicr o beth fydd y trefniant terfynol. Mae'n holl bwysig pwysleisio mai dim ond mewn sefyllfaoedd ble nad oes unrhyw drefniant gofal plant arall yn bosib y dylid defnyddio'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Er diogelwch pawb, gan fod y sefyllfa bresennol yn un mor ddifrifol, defnyddio'r ysgol ar gyfer gofal plant ddylai fod yr opsiwn olaf, er mwyn cadw'r nifer o blant sydd yn mynychu'r ysgol ar ei isaf posib.

O ran y rhai sydd yn gymwys fel 'Gweithwyr Allweddol', isod gweler yr hyn a awgrymir ar hyn o bryd fel y prif gategorïau gan yr Awdurdod Lleol. Os ydych yn meddwl y byddwch angen defnyddio'r gwasanaeth, a fydddech cystal â chysylltu â'r ysgol drwy e-bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.gov.uk cyn gynted a phosib, **cyn 10 o'r gloch bore dydd Gwener yr 8fed fan bellaf**, gan gyflwyno y wybodaeth bwysig ganlynol os gwelwch yn dda. Mae'r sefyllfa yn anodd ac yn bryderus i bawb, ac felly byddwn yn gwerthfawrogi ymateb prydlon er mwyn hwyluso ein trefniadau cynllunio staffio.

Yn ddiffuant,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth

**AR GYFER CEISIADAU I BLANT GWEITHWYR ALLWEDDOL FYNYCHU YSGOL /
FOR REQUESTS FROM KEY WORKER CHILDREN TO ATTEND SCHOOL**

Enw'r Plentyn / Child's Name: _____

Blwyddyn / Year : _____

Enw'r Rhiant/Parent's Name: _____

Ffôn Cyswilt/Contact number: Adref/Home _____ Gwaith/Work: _____

Ticiwch un o'r canlynol i nodi eich gwaith / Please mark the relevant box

Gwaith / Work		Ydych chi yn gallu cyflwyno tystiolaeth o'ch statws fel gweithiwr allweddol / Can you provide evidence of your status as a key worker
Gweithwyr Proffesiynol y GIG / NHS Professionals		
Staff Addysg/Gofal Plant sydd yn gweithio o fewn ysgolion / Education/Childcare workers who work in schools and settings		
Staff Gwasanaethau Brys a Gofal Cymdeithasol / Emergency services and Social Care workers		
Staff Diogelwch Cyhoeddus gweithwyr argyfwng a gweithwyr diogelwch Cenedlaethol / Public Safety (emergency workers) and national security workers		

Enw'r Cyflogwr/Name of Employer: _____

Pa bryd fydd angen gofal ar eich plentyn (Ticiwch) /

Please mark the required days/sessions (✓)

	Llun/Monday	Mawrth/Tuesday	Mercher/Wednesday	Iau/Thursday	Gwener/Friday
Bore/Morning	11.1.21	12.1.21	13.1.21	14.1.21	15.1.21
P'nawn/Afternoon	11.1.21	12.1.21	13.1.21	14.1.21	15.1.21

Bore/Morning	18.1.21	19.1.21	20.1.21	21.1.21	22.1.21
P'nawn/Afternoon	18.1.21	19.1.21	20.1.21	21.1.21	22.1.21

Os oes angen bydd yn bosib i chi ollwng eich plentyn yn yr ysgol am 8.30 a chasglu cyn 4 o'r gloch /
If required, you may drop off at 8.30 and collect before 4 p.m. Please complete the table below

Trefniadau gollwng i ffwrdd / Drop-off arrangements(ticiwch/please tick) ✓			
8.30		8.45	
Trefniadau gollwng i ffwrdd / Drop-off arrangements(ticiwch/please tick) ✓			
3.15		4.00	

Os ydych yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac yn awyddus i'r ysgol ddarparu cinio i'ch plentyn, yna a fydddech cystal a gadael i ni wybod os gwelwch yn dda. Bydd angen i chi dalu £2.40 am y pryd o'ch taliad uniongyrchol.

If you are eligible for your child to receive Free School Meals and wish the school to prepare a dinner for your child, then please let us know in advance. You will need to pay £2.40 for the meal from your direct payment.